GENERATION NEW ERA

A STUDY OF CHILDREN BORN IN THE 2020s

UCL

BETH SY'N DIGWYDD NESAF

Diolch am fod yn rhan o Genhedlaeth Oes Newydd (Generation New Era).

Mae eich cyfranogiad wedi cyfrannu at astudiaeth wyddonol bwysig a fydd o fudd i fywydau teuluoedd a phlant am flynyddoedd lawer i ddod. Gobeithiwn eich bod wedi mwynhau ateb cwestiynau am eich babi a'ch profiadau fel rhiant.

Beth fydd yn digwydd yn y dyfodol?

Eich cyfweliad nesaf: Gobeithiwn eich gwahodd i gymryd rhan bob ychydig flynyddoedd i ddarganfod sut mae eich plentyn yn dod ymlaen. Mae'n debygol y bydd y cyfweliad nesaf pan fyddant yn 3 oed. Pan fydd eich plentyn yn hŷn, gall benderfynu drosto'i hun a yw am barhau i gymryd rhan.

Ap BabySteps: Os ydych chi wedi cofrestru ar gyfer ap BabySteps, byddwn yn eich gwahodd i wneud gweithgareddau ymchwil byr unwaith y mis am dalebau ychwanegol. Os nad ydych chi wedi cofrestru ac yr hoffech chi wneud hynny, gallwch ddefnyddio'r cod mewngofnodi o'ch cyfweliad.

Cyfleoedd yn y dyfodol: Efallai y cewch eich gwahodd i weithgareddau ymchwil eraill neu y gofynnir i chi a hoffech gymryd rhan mewn ffyrdd eraill o helpu'r astudiaeth. Gallwch ddewis peidio â chymryd rhan yn y rhain a dal i fod yn rhan o Genhedlaeth Oes Newydd.

Eich dewis chi yw cymryd rhan bob tro. Mae gennych yr hawl i dynnu'n ôl o'r astudiaeth gyfan neu o rannau unigol, ar unrhyw adeg.

Dilynwch ni ar Instagram!

@gnestudy

Sut fyddwn ni'n cadw mewn cysylltiad?

Byddwn yn anfon y newyddion a chanfyddiadau diweddaraf atoch drwy e-bost a phost.

Byddwn yn defnyddio'r manylion cyswllt a ddarparwyd gennych i gadw mewn cysylltiad.

Os ydych chi wedi rhoi manylion rhywun i ni y gallwn ni gysylltu â nhw yn y dyfodol os na allwn ni gael gafael arnoch chi, **gofynnir i chi wirio eu bod nhw'n hapus i ni gadw a defnyddio eu manylion at y diben hwn.**

Efallai y byddwn hefyd yn defnyddio ffynonellau fel cofnodion y GIG, gwasanaethau gwirio cyfeiriadau a gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd i helpu i gadw eich manylion cyswllt yn gyfredol.

Ceir rhagor o wybodaeth ar ein gwefan gnestudy.info.

Os byddwch chi'n symud neu'n newid eich cyfeiriad e-bost neu rif ffôn, rhowch wybod i ni gan ddefnyddio'r cod QR.

Beth os ydw i eisiau siarad gyda rhywun am rywbeth yn fy mywyd?

Gobeithio eich bod wedi mwynhau cymryd rhan. Os oes unrhyw beth wedi codi pryderon i chi, mae sefydliadau a all helpu:

Home Start – Cefnogaeth i rieni: home-start.org.uk/find-your-nearest-home-start

Citizens Advice – Cyngor ar arian a materion ymarferol: citizensadvice.org.uk

Talk to FRANK – Cyngor cyfrinachol ar gyffuriau ac alcohol: talktofrank.com. E-bost, neges destun **82111**, ffonio **0300 123 6600** (24 awr), neu gwe-sgwrs

Refuge – Cymorth cam-drin domestig i fenywod: refuge.org.uk neu ffoniwch **0808 2000 247** (24 awr)

Respect – Cymorth i bobl sy'n poeni am eu hymddygiad eu hunain (ffoniwch **0808 8024040**) neu ddioddefwyr gwryw cam-drin domestig (ffoniwch **0808 8010 327**). respect.org.uk

Samaritans – Cymorth emosiynol: samaritans.org neu ffoniwch **116 123** (24 awr)

Am bryderon iechyd, cysylltwch â'ch **meddyg teulu** neu **ymwelydd iechyd**.

Cwestiynau am eich cyfweliad?

Cysylltwch ag Ipsos:
gnestudy@ipsos.com
0800 151 0610

Cwestiynau am eich astudio?

Cysylltwch ag UCL:
gnestudy@ucl.ac.uk
0808 175 6630

Eisiau diweddaru eich caniatâd?

Gallwch newid eich caniatâd ar gyfer ychwanegu cofnodion arferol neu dynnu'n ôl o'r astudiaeth drwy sganio'r cod QR a llenwi'r ffurflen ar wefan yr astudiaeth.

Diolch am fod yn rhan o Genhedlaeth Oes Newydd (Generation New Era).

24-030189-01/M-F04W